



Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	03/03/2020
Teitl:	Pecyn hyfforddiant y Rheoleiddiwr Pensiynau
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Er Gwybodaeth a gweithrediad

1. Cyflwyniad

Fel rhan o'r rhaglen hyfforddi, mae'n ofynnol i aelodau'r bwrdd ymgymryd â phecyn hyfforddiant ar-lein y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd yr hyfforddiant hwn yn galluogi aelodau bwrdd i gyrraedd y lefel isaf o wybodaeth a dealltwriaeth a gyflwynwyd yn Neddf Pensiynau 2004.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys naw modiwl Dysgu Hanfodol ar gyfer Ymddiriedolwyr a saith modiwl dysgu gorfodol pecyn cymorth y Sector Cyhoeddus.

2. Modiwlau Dysgu Hanfodol ar gyfer Ymddiriedolwyr

Rhennir y modiwlau yn senarios llai sy'n dilyn bwrdd cynllun Budd Diffiniedig (BD) wrth iddynt lywodraethu'r cynllun a mynychu cyfarfodydd ymddiriedolwyr, delio â materion, cwrdd â chynghorwyr a chyfathrebu ag aelodau ar hyd y ffordd.

Wrth i chi weithio trwy'r senarios byddwch yn cymryd rhan mewn trafodaethau ymddiriedolwyr fel aelod o'r bwrdd a bydd eich gwybodaeth yn cael ei phrofi trwy gwestiynau 'pwynt penderfynu'. Yn dibynnu ar eich ateb efallai y cewch eich cyfeirio at diwtorialau technegol i ddysgu mwy am y pwnc fel rheoli risg a rheolaethau mewnol, opsiynau buddsoddi diodyn ar gyfer cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig (CD) neu gynlluniau adfer ar gyfer cynlluniau BD.

Mae gan bob modiwl asesiad i brofi'ch gwybodaeth sydd, os caiff ei basio, yn cael ei ychwanegu at eich cofnod datblygu. Gallwch chi lawrlwytho a rhannu eich cofnod datblygu fel prawf o'ch cyflawniadau.

Y naw modiwl Dysgu Hanfodol i Ymddiriedolwyr ar gyfer cynllun DB yw:

Modiwl	Beth mae'r modiwl yn ei gwmpasu:	Amser astudio mewn oriau
Cyflwyno cynlluniau pensiwn	Pensiynau galwedigaethol a sut maen nhw'n cael eu rhedeg	1 awr

Rôl yr ymddiriedolwr	Sut brofiad yw dod yn ymddiriedolwr, mynychu cyfarfodydd bwrdd, dyletswyddau, pwerau ac amddiffyniadau	1 awr 15 mun
Rhedeg cynllun	Rheoli risg, cynnal data aelodau a gweithio gydag ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth	1 awr 15 mun
Deddf pensiynau	Deddfwriaeth yn ymwneud â phensiynau, Y Rheoleiddiwr Pensiynau, triniaeth dreth pensiynau, pensiynau'r wladwriaeth a gweithdrefnau anghydfod aelodau	1 awr 15 mun
Cyflwyniad i fuddsoddiad	Buddsoddi mewn cynllun pensiwn, mathau o asedau, risg, gwobr, cylchoedd economaidd, rheolaeth weithredol a goddefol, arallgyfeirio a rheoli buddsoddiadau	2 awr 15 munud
Sut mae cynllun BD yn gweithio	Sut mae buddion yn cronni ac yn cael eu cyfrifo, cyfamod y cyflogwr ac yn cydnabod pryd y gall gallu cyflogwr i fodloni rhwymedigaethau pensiwn fod mewn perygl	1.5 awr
Ariannu eich cynllun BD	Rhagdybiaethau amrywiol a ddefnyddir i fesur sefyllfa ariannu cynllun a'r gwahanol fesurau a ddefnyddir i bennu lefel ariannu cynlluniau	1.5 awr
Cynlluniau adfer BD, cyfraniadau ac egwyddorion cyllido	Pennu cyfraniadau a chynhyrchu cynllun adfer a datganiad o egwyddorion cyllido	1.5 awr
Buddsoddi mewn cynllun BD	Adolygu'r strategaeth fuddsoddi, offer i helpu ymddiriedolwyr fel dadansoddi senarios, modelu amcanestyniadau a modelu stochastig ac enghreifftiau o newidiadau y mae ymddiriedolwyr yn eu gwneud i'r dyraniad asedau.	2 awr

Essential learning for trustees

These are the modules you must pass to achieve the required level of trustee knowledge and understanding based upon your scheme type and size selected (or indicated) at registration. If the selection looks incorrect, you may need to [change your profile criteria](#).



Introducing pension schemes

60 minutes



The trustee's role

75 minutes



Running a scheme

75 minutes



Pensions law

75 minutes



An introduction to investment

135 minutes



How a DB scheme works

90 minutes



Funding your DB scheme

90 minutes



DB recovery plans, contributions and funding principles

90 minutes



How a DC scheme works (2014)

60 minutes



Investment in a DC scheme

60 minutes



Investment in a DB scheme

60 minutes

3. Rhaglen Gwasanaeth Cyhoeddus

Rhennir rhaglen Gwasanaeth Cyhoeddus ar-lein y Rheoleiddiwr Pensiwn yn saith cwrs ar wahân sydd wedi'u cynllunio i'ch galluogi i dipio i mewn ac allan o'r cynnwys, a dysgu ar eich cyflymder eich hun. Gellir lawrlwytho'r holl wybodaeth, sy'n golygu y gallwch chi astudio all-lein hefyd.

Mae pob cwrs yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i weddu i'r ffordd rydych chi am ddysgu. Mae hyn yn cynnwys:

- modiwl e-ddysgu sy'n cynnwys tiwtorial technegol ac astudiaeth achos
- asesiad i brofi'ch gwybodaeth.
- daflen waith i wirio eich cynllun i'ch helpu chi i gymhwyso'r dysgu i'ch cynllun eich hun
- ymarferion y gallwch eu cwblhau'n unigol neu fel grŵp i brofi'ch gwybodaeth neu brosesau'r cynllun
- enghreifftiau ac adnoddau ychwanegol i ddod â'r dysgu'n fyw

Amcangyfrifir y bydd pob cwrs yn cymryd awr i'w gwblhau.

Mae'r cyrsiau'n cwmpasu'r pynciau canlynol mewn perthynas â llywodraethu a gweinyddu cynlluniau gwasanaeth cyhoeddus:

Cwrs	Beth mae'r cwrs yn ei gwmpasu
Gwrthdaro buddiannau	Dysgwch beth yw gwrthdaro buddiannau, pa mor bwysig yw bod yn ymwybodol ohonynt a'u heffaith bosibl. Byddwch hefyd yn darganfod sut i reoli gwrthdaro.
Rheoli risg a rheolaethau mewnol	Dysgu sut i nodi, gwerthuso, rheoli a monitro risgiau cynllun. Byddwch hefyd yn dysgu am reolaethau mewnol a ddefnyddir i liniaru risg.
Cynnal data aelodau cywir	Dysgu am y gofynion ar gyfer cynnal data aelodau cyflawn a chywir. Byddwch hefyd yn dysgu am gofnodion eraill y mae'n rhaid eu cadw.
Cynnal cyfraniadau aelodau	Dysgu am y gofyniad i fonitro cyfraniadau aelodau a sut i reoli cyfraniadau hwyr.
Rhoi gwybodaeth i aelodau ac eraill	Dysgu am y wybodaeth y mae'n ofynnol i gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus ei darparu i aelodau.
Datrys anghydfodau mewnol	Dysgu am y gofyniad i gynlluniau gael gweithdrefn datrys anghydfod mewnol.
Adrodd achosion o dorri'r gyfraith	Dysgu am bwy rhaid adrodd am achosion o dorri'r gyfraith, penderfynu pryd i roi gwybod am dorri'r gyfraith a sut i gyflwyno adroddiad.

[Your learning](#) | [Help](#)


Your learning

The toolkit features various courses. Select a course to view the course page and choose an activity:



Conflicts of interest

30 minutes



Managing risk and internal controls

30 minutes



Maintaining accurate member data

30 minutes



Maintaining member contributions

30 minutes



Providing information to members and others

30 minutes



Resolving internal disputes

30 minutes



Reporting breaches of the law

30 minutes

4. Profi'ch cyflawniadau

Mae'r rhaglen Gwasanaeth Cyhoeddus yn eich galluogi i argraffu neu arbed cofnod datblygu sy'n profi eich cyflawniadau yn y rhaglen.

Mae pob cwrs yn cynnwys asesiad ar-lein ac ar gyfer pob un rydych chi'n pasio bydd eich cofnod datblygu yn cael ei ddiweddarau gyda'ch sgôr. Gellir lawrlwytho'r cofnod datblygu ar unrhyw adeg ac wrth i fodiwlau newydd gael eu cyflwyno byddwch yn gallu pasio'r rhain a'u hychwanegu at eich cofnod hefyd.

5. Sut i fewngofnodi?

Mae mwy o wybodaeth ar y dudalen ganlynol:

<https://www.thepensionsregulator.gov.uk/en/public-service-pension-schemes>

Sefydlwch eich cyfrif eich hun ar y wefan ganlynol:

<https://trusteetoolkit.thepensionsregulator.gov.uk/>